**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Bridget Phillipson AS
Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg
Llywodraeth y DU

1 Awst 2024

Annwyl Bridget,

**Diwygio'r Ardoll Brentisiaethau**

Rwyf yn Gadeirydd ar Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd. Roedd gen i ddiddordeb clywed yn Araith y Brenin fod Llywodraeth y DU yn bwriadu diwygio'r Ardoll Brentisiaethau. Rwyf hefyd yn nodi o'ch datganiad ar y cyd â Phrif Weinidog y DU y bydd gan Skills England rôl fawr i'w chwarae yn yr ardoll sgiliau a thwf newydd.

Mae'r Ardoll Brentisiaethau yn fater sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor. Ar 18 Ionawr, dywedodd Vaughan Gething AS, sef y Gweinidog oedd â chyfrifoldeb am brentisiaethau ar y pryd, wrth ein Pwyllgor nad ydy'r Ardoll yn cyflawni dros Gymru. Galwodd hefyd am Ardoll ddiwygiedig a fyddai'n fwy tryloyw.

Mae gennyf ddiddordeb yn eich cynlluniau ar gyfer diwygio a'r effaith y gallent ei chael ar fusnesau a phrentisiaid yng Nghymru. A fyddech cystal â rhoi gwybod i mi:

- Unrhyw fanylion y gallwch eu rhannu am y cynlluniau diwygio ar hyn o bryd, yn enwedig unrhyw beth ynghylch eich barn am sut y bydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio ar Gymru; a
- Pa rôl ydych chi'n rhagweld y bydd Llywodraeth Cymru yn ei chwarae yn y broses ddiwygio hon.

Edrychaf ymlaen at glywed oddi wrthych a dilyn cynnydd y broses o ddiwygio'r ardoll brentisiaethau.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Jo Stevens AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a Jack Sargeant AS, y Gweinidog Partneriaeth Gymdeithasol, er gwybodaeth iddynt.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg